NEWYDDION
I'R SECTOR ÔL-16

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mai 2019

'CYNLLUN UCHELGEISIOL'

- 'Rhaid i bawb chwarae ei rhan'

Ar ddechrau 2019 lansiodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, Gynllun Gweithredu 'Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr'.
Roedd y Gweinidog yn frwd wrth groesawu'r Cynllun 'uchelgeisiol' ac yn glir fod angen i bob partner chwarae rhan yn ei weithredu. Mae'r Cynllun yn targedu pob dysgwr ac yn anelu at ddarparu cyfle iddynt ddatblygu a meithrin eu sgiliau Cymraeg – ar ba bynnag lefel y bônt. Ers y lansiad, bu tîm y Coleg ar daith o amgylch Cymru yn cwrdd â cholegau, darparwyr prentisiaethau a phartneriaid allweddol fel Cymwysterau Cymru, Y Cyngor Gweithlu Addysg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg. Mae'r Coleg Cymraeg hefyd wedi ei groesawu fel aelod cyswllt o Colegau Cymru.

FIDEOS, GOFALU AM GLEIFION, GWREIDDIAU'R GYMRAEG A DIWYDIANNAU CREADIGOL

Mae sawl gweithgarwch a phrosiect eisoes wedi eu cefnogi er mwyn cyfoethogi profiadau dysgwyr.



- Ym Mhwllheli, bu dysgwyr o Grŵp Llandrillo Menai yn dysgu sut i greu fideos ffurf byr gyda chriw Hansh – ac yn paratoi eu fideos eu hunain. Rhagor yma
- Yng Nghaerdydd daeth dros 100 o ddysgwyr Iechyd a Gofal at ei gilydd mewn cynhadledd i wrando ar brofiadau gweithwyr a chleifion yn y maes o weithio a gofalu'n ddwyieithog. Rhagor yma
- Yng Nghaerfyrddin, bu'r Athro Mererid Hopwood yn cyflwyno gwreiddiau'r Gymraeg yn Lladin a Groeg – gan ysbrydoli dysgwyr i wneud defnydd llawn o'u sgiliau ar eu CVs Rhagor yma
- Ym Merthyr, cafodd dysgwyr diwydiannau creadigol wledd o weithdai gan Richard Harrington, Hannah Daniel, Iwan England a Kizzy Crawford. Rhagor yma

CYMRAEG
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

OES DIGON O ADNODDAU CYMRAEG AR GAEL I DDYSGWYR?

Un o themâu amlwg y Cynllun Gweithredu yw'r angen i sicrhau bod digonedd o adnoddau a deunyddiau dysgu dwyieithog ar gael i fyfyrwyr. Mae nifer mawr o bethau wedi digwydd yn y misoedd diwethaf mewn perthynas â hyn gydag arbenigwyr pwnc yn casglu adnoddau ac yn adnabod bylchau yn yr hyn sydd ar gael ym meysydd Iechyd a Gofal, Gofal Plant, Gwasanaethau Cyhoeddus, Busnes, Diwydiannau Creadigol, Amaethyddiaeth, Adeiladwaith, Chwaraeon a Hamdden. Erbyn hyn mae rhestr o dros 70 o adnoddau i'w comisiynu ac mae'r Coleg yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi hyn ar waith.

Mae'r Coleg wedi comisiynu dau adnodd sylweddol a fydd yn barod i'w defnyddio o Fedi 2019 ymlaen:

- Adnodd ymwybyddiaeth iaith i ddysgwyr iechyd a gofal
- Adnodd ymwybyddiaeth iaith i brentisiaid a fydd yn cynnwys llwybrau galwedigaethol mewn iechyd a gofal, gofal plant, adeiladwaith ac amaeth.

Mae tîm adnoddau Cymraeg Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu nifer o adnoddau, gan gynnwys pum adnodd newydd ar gyfer myfyrwyr Amaethyddiaeth.

Am ragor o wybodaeth am yr adnoddau hyn, cysylltwch â Mari Fflur, m.fflur@colegcymraeg.ac.uk

CEFNOGI A DATBLYGU STAFF

Mae'r Coleg Cymraeg yn falch iawn o gydweithio gyda Cholegau Cymru, NTFW a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol er mwyn cefnogi'r Cynllun Cymraeg Gwaith yn y sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaethau. Daeth blwyddyn gyntaf y cynllun i ben yn ddiweddar gyda gwobrwyon yn cael eu dyfarnu i nifer o golegau. Darllenwch mwy am y gwobrau yma:

http://www.collegeswales.ac.uk/NewsContentcy.php?N=91

Mae'r Coleg hefyd wedi cefnogi cwrs penodol dwyieithog i ddarpar aseswyr (TAQA) a bydd cyfleoedd i ymuno â'r cwrs ym Mehefin a mis Medi. Os oes gennych staff (neu ddarpar staff) sy'n awyddus i gymhwyso fel aseswyr – mae hyn yn gyfle gwych. Cysylltwch â Non Wilshaw (nonwilshaw@acttraining.org.uk) sy'n trefnu'r cwrs a ariennir gan y Coleg.

CYDWEITHIO AR GYMWYSTERAU

Bu sawl cyfarfod cadarnhaol gyda swyddogion Cymwysterau Cymru. Y cam cyntaf yw mapio'r cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael ac adnabod mannau lle y ceir cymwysterau sydd â galw mawr amdanynt, ond nid ydynt ar gael yn ddwyieithog ar hyn o bryd. Bu cyfle hefyd i gyrff dyfarnu ymgeisio am gyllid i ddatblygu cymwysterau dwyieithog eto ar gyfer 2019–20 ac mae'r nifer o geisiadau yn addawol. Mae'r ddogfennaeth grant yn cynnwys blaenoriaethau strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol eleni.

I'r dyddiadur:

Bydd Dr Dafydd Trystan a Dr Lowri Morgans yn mynychu ac yn cyflwyno mewn sawl cynhadledd a gweithdy yn ystod y misoedd nesaf – felly dewch draw i ddweud helo a thrafod eich syniadau:

16 Mai 2019: Gŵyliaith, Aberystwyth
12 Mehefin 2019: Cynhadledd Colegau Cymru, Caerdydd
27 Mehefin 2019: Cynhadledd NTFW, Caerdydd

Os oes gennych unrhyw gwestiynau/sylwadau neu syniadau yr hoffech eu trafod – cysylltwch â Dr Dafydd Trystan d.trystan@colegcymraeg.ac.uk; neu Dr Lowri Morgans l.morgans@colegcymraeg.ac.uk

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

CYMRAEG

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government